Triniaethau Arbennig Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

Cylchlythyr Ymarferwyr Rhif 2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk

Dyma'r ail mewn cyfres o gylchlythyrau i roi gwybod i ymarferwyr am y cynnydd wrth gyflwyno cynllun trwyddedu Triniaethau Arbennig yng Nghymru

CRYNODEB O'R WYBODAETH DDIWEDDARAF

Ein nod o hyd yw cyflwyno'r cynllun trwyddedu newydd yn 2020, ond mae'n bosibl y bydd yr amserlen hon yn cael ei gwthio ymlaen gan ein bod wedi bod yn brysur yn gweithio i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau Cymru yn ystod Brexit.

MAE HYN YN GOLYGU:

- Bydd y gofynion cyfreithiol presennol mewn perthynas â chofrestru a gorfodi ar gyfer tatŵio, tyllu, electrolysis ac aciwbigo yn parhau yn eu lle yn y cyfamser.
- Mae'n caniatáu mwy o amser i ymgynghori â rhanddeiliaid a sicrhau bod y broses a'r amgylchiadau o ran trwyddedu yn gywir.
- Rhagor o amser i gyflawni Dyfarniad Rheoli Heintiau Lefel 2.

Dylai ymarferwyr sy'n tyllu'r corff nodi:

Daeth Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff (Cymru) 2019 i rym ar 1 Awst 2019 (dolenni isod). Mae'r Rheoliadau yn gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff gan ddefnyddio unrhyw wrthrych, boed hynny'n emwaith neu beidio, mewn plant o dan 18 oed.

https://llyw.cymru/tyllu-rhannau-personol-or-corff-canllawiau-i-fusnesau-ac-ymarferwyr?_ga=2.174335787.806710192.1564996229-2082206469.1563792913

Dyfarniad Lefel 2 y Gymdeithas Frenhinol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd (RSPH) mewn Atal a Rheoli Heintiau

Er mwyn cael trwydded bersonol, bydd yn ofynnol i ymarferwyr ennill cymhwyster cymeradwy ar reoli heintiau.

Mae'r cymhwyster hwn bellach wedi derbyn cymeradwyaeth gan y cyrff rheoleiddio priodol; Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual) a Cymwysterau Cymru. Credwn mai dyma yw'r cymhwyster rheoledig cyntaf sy'n ymwneud â rheoli heintiau ar gyfer triniaethau arbennig yn y DU.

Rydym bellach yn datblygu Pecyn i Hyfforddwyr ar gyfer y cymhwyster hwn, yna bydd yn cael ei brofi, a'r disgwyl yw y bydd y cwrs hyfforddiant un diwrnod hwn ar gael i ymarferwyr erbyn diwedd y flwyddyn.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i wefan RSPH: https://www.rsph.org.uk/qualifications/learners/find-a-qualification.html?q=&place=&category=9A4E55F4-06DA-451E-8B285B3EBF0CBA68.

Melanoma Malaen a mannau du amheus - Cyngor i Ymarferwyr

Yn dilyn y cynadleddau ymgysylltu, mae nifer ohonoch wedi gofyn am gyngor ar sut i adnabod arwyddion bod mannau du ar y croen o bosibl yn beryglus. Rydym wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Dermnet NZ a Miiskin i lunio canllawiau ar gyfer ymarferwyr a chleientiaid. Gobeithio y byddant yn ddefnyddiol i chi.

https://llyw.cymru/mannau-duon-moles-ar-eich-croen-sut-i-adnabod-arwyddion-o-berygl?_ga=2.116178758.1310501288.1563895179-

Oeddech chi'n gwybod?

Mae tua 1,850 o ymarferwyr triniaethau arbennig cofrestredig yng Nghymru, ac amcangyfrifir bod 988 o leoliadau cofrestredig.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda chynghorau lleol ac ymarferwyr i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cynllun trwyddedu newydd.

Mae 'nodwyddo sych' yn fath o aciwbigo fel y'i diffinnir yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, a bydd angen i unigolion sy'n cynnig y driniaeth hon gael eu trwyddedu yng Nghymru.

Cynadleddau Ymgysylltu ag Ymarferwyr

Mae 3 cynhadledd ymgysylltu ag ymarferwyr bellach wedi'u cynnal; 1 yng Nghonwy a 2 yng Nghaerdydd. Daeth 341 o gynrychiolwyr i'r tair cynhadledd, a nododd 95% o ymarferwyr eu bod yn teimlo eu bod yn fwy gwybodus am y cynllun trwyddedu Triniaethau Arbennig yn sgil y gynhadledd.

Yn gyffredinol, roedd y cynrychiolwyr yn croesawu'r ffaith bod y cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer triniaethau arbennig yn cael ei gyflwyno. Dangoswyd cefnogaeth at y ffaith bod cymhwyster pwrpasol yn cael ei gyflwyno ar gyfer atal a rheoli heintiau, hefyd dull gweithredu cenedlaethol o ran trwyddedu ac un gofrestr gyhoeddus ar gyfer ymarferwyr trwyddedig.

Fodd bynnag, roedd ymarferwyr am weld y rheoliadau'n cael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl. Isod, rhoddir amlinelliad o'r pryderon mwyaf cyffredin:

1. Y gost i fusnesau, y mae nifer ohonynt yn unig fasnachwyr. Roedd ymarferwyr yn pryderu bod risg y byddai'r broses drwyddedu yn dod yn ffordd o wneud arian pe na byddai'r costau'n dryloyw. Roedd busnesau'n cefnogi'r syniad bod pob awdurdod lleol yn codi'r un ffi drwyddedu.
2. Safonau sy'n cael eu gweithredu gan ymarferwyr symudol a'r rheini sy'n gweithio o gartref - sut y byddai hwn yn cael ei orfodi'n effeithiol - roedd nifer yn credu y dylai'r safon ar gyfer yr ymarferwyr hyn fod yn uwch gan fod mwy o risgiau.
3. Sut y byddai prentisiaid a chonfensiynau yn cael eu cynnwys yn y cynllun trwyddedu
4. Nid oedd ysgolion hyfforddi preifat yn cyfleu neges gyson na chywir am atal a rheoli heintiau ac roedd hyn yn cael effaith sylweddol a ymarferwyr newydd neu rai ifanc
5. Mae angen sicrhau nad oes gormod o fiwrocratiaeth ynghlwm â'r gwaith o gyflwyno dull gweithredu cyson o ran gorfodi drwy Gymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer triniaethau arbennig neu'r gofyniad cyfreithio sydd ar y gweill, mae croeso ichi gysylltu â:
Sarah.Jones058@llyw.cymru